Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Arloesi

# Mon Naturals

## Partneriaeth SMART Llywodraeth Cymru'n hwyluso masnacheiddio eli traddodiadol



Ianto Jones yn lansio'r eli yn Eisteddfod Genedlaethol 2018

Mae Partneriaethau SMART Llywodraeth Cymru'n darparu cefnogaeth ariannol i brosiectau arloesol sydd angen cydweithio academaidd ac ystod o arbenigedd, er mwyn datblygu a masnacheiddio cynnyrch neu dechnoleg a thyfu'r busnes.

Mae eli traddodiadol Eliawen™ yn un stori lwyddiant o'r math hwn, a ddaeth i'r farchnad am y tro cyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol fis Awst 2018, diolch i bartneriaeth SMART rhwng y busnes newydd Mon Naturals, Prifysgol Bangor a Llywodraeth Cymru.

Gan ddefnyddio rysait sydd wedi bod yn nheulu'r Jonesiaid ym Môn ers dros 200 mlynedd, roedd yr eli wedi cael ei ddefnyddio'n lleol i drin cyflyrau ar y croen, gan gynnwys llosgiadau a chlwyfau am genedlaethau.

Yn 2016, ffurfiwyd cwmni Mon Naturals gan y teulu er mwyn cyfuno degawd o ymchwil a oedd wedi digwydd yn barod, ag arbenigedd allanol angenrheidiol ar gyfer cyflwyno'r cynnyrch i farchnad ehangach drwy fasnacheiddio a thrwyddedu ar gyfer masnachu.

Yn 2017, derbyniodd y cwmni gefnogaeth ariannol arloesi o dan gynllun "Partneriaethau SMART" Llywodraeth Cymru i asesu nodweddion gwrthficrobaidd y driniaeth naturiol hon ar gyfer y

### Llwyddiannau allweddol:

- Cyllido Partneriaeth SMART Llywodraeth Cymru (50% o gyfanswm cost y prosiect) – yn cefnogi mwy o fusnesau Cymru i arloesi
- Y cynnyrch bellach wedi derbyn nod masnach a thrwydded i'w werthu fel eli traddodiadol – gan gefnogi masnach
- Creu swyddi ar unwaith ac yn yr hirdymor yn unol â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sydd â'r bwriad o greu Cymru fwy ffyniannus

farchnad fasnachol. Gwnaed y gwaith ar y cyd â'r Ganolfan BioGyfansoddion ym Mhrifysgol Bangor a ddarparodd Gydymaith penodol i weithio ar brosiect 10 mis o hyd i archwilio nodweddion gwrth-ffwng a gwrth-facteria'r eli. Cofrestrwyd y cynnyrch newydd gan y prosiect fel cynnwys deunydd coluro, a thrwy gyfrwng cefnogaeth ychwanegol gan Arloesi Pontio ym Mhrifysgol Bangor, cynorthwywyd gyda hunaniaeth brand, datblygu pecynnu a rhoi nod masnachu i Eli Eliawen.

"Dyma enghraifft lwyddiannus o sut y defnyddiwyd cyllid partneriaeth SMART i gynorthwyo gyda datblygu Mon Naturals wrth i'r cwmni baratoi i lansio Eli Eliawen. Drwy gydweithio â Phrifysgol Bangor, cafwyd cefnogaeth allweddol mewn sawl maes gan gynnwys profi swyddogaethau'r eli, cofrestru'r cynnyrch a dylunio'r deunydd pecynnu. Mae'r prosiect hefyd wedi tynnu sylw at opsiynau cyffrous ychwanegol i'r cwmni wrth iddo barhau i ymestyn."

**Adam Charlton, Canolfan BioGyfansoddion, Prifysgol Bangor**

Mae'r cwmni eisoes wedi cyflogi aelod ychwanegol o staff i helpu i gyflawni darpar archebion. Mae sawl rôl wedi'i chynllunio yn unol â nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sydd â'r bwriad o greu Cymru fwy ffyniannus.

Bydd y cwmni'n parhau i weithio ar bethau eraill a threialon clinigol i'w defnyddio mewn dyfeisiadau meddygol Dosbarth Un.

"Bu'r gefnogaeth ariannol a thechnegol a dderbyniwyd drwy Bartneriaeth SMART Llywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor yn ail i ddim. Bu'n allweddol wrth adael i mi ddilysu swyddogaethau'r rysait wreiddiol a fu yn y teulu am 200 mlynedd, a'i gynhyrchu'n fasnachol er budd defnyddwyr, a gobeithio'r sector feddygol, am genedlaethau i ddod."

**Ianto Jones, Prif Weithredwr, Mon Naturals**




**Llinell Amser y Prosiect:**

- **Tachwedd 2017** – cefnogaeth cyllid arloesi i gael astudiaeth ddichonolrwydd Technegol a Masnachol ym Mhrifysgol Bangor
- **Gorffennaf 2018** – cofrestru a thrwyddedu'r cynnyrch yn llwyddiannus ar gyfer ei werthu i ddefnyddwyr fel eli traddodiadol, a rhoi nod masnachu ar enw'r brand a'r eiddo deallusol
- **Awst 2018** – y cynnyrch ar werth am y tro cyntaf i ddefnyddwyr yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd

Busnes Cymru | Business Wales

Ffyniant i bawb: cynllun gweithredu economaidd yw strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru. Dysgwch ragor am y cyllid a'r gefnogaeth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru:
03000 6 03000 | innovation@llyw.cymru
businesswales.gov.wales/innovation/cy

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

WG34230 / © Hawlfraint y Goron 2018 OGL